**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/2983/22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.cymru

10 Mawrth 2023

Annwyl Huw Irranca-Davies AS

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Mawrth ac am adroddiad drafft y Pwyllgor gan gyfreithwyr y Senedd a oedd yn nodi pwyntiau adrodd technegol ac a oedd yn rhan o'u hadolygiad o Reoliadau Pecynnu Gwastraff (Casglu a Chofnodi Data) (Cymru) 2023 ("y Rheoliadau").

Fel y nodwyd gennych, cafodd y Rheoliadau eu hailosod yn y Senedd ar 14 Chwefror gan ei bod hi’n bwysig bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym cyn gynted ag y bo modd o gofio eu bod yn rhan o gyfres o Reoliadau ar draws y DU. Mae angen y Rheoliadau er mwyn cyflwyno diwygiadau i'r ffordd yr eir ati i reoli deunyddiau pecynnu a sicrhau bod Cymru yn rhan o'r ffordd gydgysylltiedig y bwriedir mynd ati i wneud hynny ar draws y DU.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn mynd ati o fwriad i osod deddfwriaeth ddiffygiol gerbron y Senedd ac mae'r Rheoliadau hyn wedi bod yn rhan o broses ddatblygu gydgysylltiedig er mwyn sicrhau cyfraith ymarferol a chyson ledled y DU. Gan fod y rheoliadau cyfatebol, sy’n ei gwneud hi’n ofynnol i gynhyrchwyr adrodd ar ddeunyddiau pecynnu a roddir ar y farchnad bellach mewn grym yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon mae angen cyflwyno’r rheoliadau cyn gynted â phosibl yng Nghymru.

Fodd bynnag, o ystyried bod adroddiad drafft eich Pwyllgor wedi nodi rhagor o bwyntiau adrodd technegol mewn perthynas â’r Rheoliadau, rydym wedi eu tynnu'n ôl fel y gallant gael eu hystyried cyn eu hailosod.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran y gwallau a nodwyd yn fy llythyr dyddiedig 1 Mawrth, rydym yn deall bod Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno offeryn diwygio er mwyn mynd i’r afael â’r rhain yn eu rheoliadau, ond nid yw’r gwallau yn ymddangos yn y rheoliadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon gan y sylwyd arnynt ac fe’u cywirwyd cyn iddynt ddod i rym.

Rwy'n anfon copi o’r llythyr hwn at y Llywydd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes, at y Cwnsler Cyffredinol a Chadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change